

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Mawrth 7fed 2016 am 7.30 y.h.

### Cofnodion

1a) Cafwyd cyfarfod gyda Phil Gales Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru gan obeithio y buasem yn cael rhyw awgrymiadau ar y ffordd ymlaen i arafu trafndiaeth ar hyd yr A543. Cawsom gyfarfod adeiladol ac yna awgrymwyd ein bod yn cysylltu gydag 'Gan Bwyll' a 'Siwrne Saff'.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gari Jones, Alun Owen, Gwynfor Roberts a'r Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts.

2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans, Edmund Rees, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)

3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.

4. **Cofnodion mis Ionawr:** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio.

5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**

5.1. Wal o amgylch y toiledau – y gwaith o amgylch y toiledau wedi eu cwblhau ond dal i ddisgwyl iddynt dynnu'r peiriannau talu oddi yno. Y clerch wedi cysylltu gyda Conwy eto.

5.2. Diffibrilwyr – wedi cyrraedd ac wedi ei osod ar wal allanol y toiledau cyhoeddus yn y pentref gan Cyngor Conwy.

5.3. Biniau Sbwriel A5 – bin metel wedi ei gosod ar yr arosfa i'r gorllewin o'r pentref.

5.4. Lampau stryd – y cwbl yn gweithio ar hyn o bryd.

5.5. Bin Baw Cŵn wrth y Giler wedi cael ei sythu.

6. **Gohebiaeth:**

6.1. Ysgol Gynradd Pentrefoelas yn gofyn am gyfraniad i fynd ar drip i Gaerdydd. Ar gynigiad Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio cytunwyd pawb na fyddwn yn cefnogi ei cais.

7. **Talu Anfoneb:**

7.1. Cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio talu'r anfoneb o **£60.00** gyda siec rhif **100259** i Crwstech am osod eitemau ar y wefan.

8. **Un Llais Cymru:**

Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio ein bod yn ymaelodi gydag Un Llais Cymru. Y tâl aelodaeth fydd **£43.00** (hyn yn seiliedig ar 153 o anheddau trethadwy yn ôl £0.284c yr annedd). Talwyd gyda siec rhif **100260**.

9. **Mabwysiadu'r Saith Maes Allweddol:**

i) **Rheoliadau Sefydlog** - ar gynigiad Edmund Rees gyda Dewi Evans yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.

ii) **Rheoliadau Ariannol** – ar ôl ei archwilio a newid 11 (b) (dd) a (f) o £50,000 i £500 hefyd (f) o £1,000 i £499 cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio ei mabwysiadu fel rhai cywir.

iii) **Rheoliadau Mewnol** – ar gynigiad Edmund Rees gyda Dewi Evans yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.

iv) **Polisi Ymateb i Gwynion** – cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir

v) **Asesiad Risg** – ychwanegwyd y Goeden Nadolig i'r rhestr. Ar gynigiad Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.

vi) **Còd Ymddygiad** – ar gynigiad Dewi Evans gydag Alun Edwards yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cyflawn.

vii) **Cyllideb** – wedi ei mabwysiadu 04.01.16

**Bu i'r Saith Maes Allweddol gael ei cymeradwyo gan oll o'r Cynghorwyr.**

10. **Pen-blwydd y Cwîn:**

Derbyniwyd sampl o fedal i ddathlu penblwydd y Cwîn yn 90 oed ar gyfer plant yr ardal. Penderfynwyd gadael y mater ar hun o bryd a gweld os daw ychwaneg o samplau ac yna trafod eto.

11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1 Gwybodaeth gan yr Archwilwyr newydd – gan nad oes dim gwybodaeth na chanllawiau wedi dod hyd yma gan yr Archwilwyr newydd, cytunwyd y bu rhaid cadw i'r hen drefn oni bai y byddwn yn clywed ganddynt yn y dyfodol agos.

12.2. Angen trwsio twll yn y ffordd rhwng Mownt a Chapel Bont.

12.3. Wal gerrig ar y groesfordd wrth Mownt angen sylw.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Ebrill 4ydd 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd PIB Weston  
Cadeirydd

Dyddiad 04.04.16

\*\*\*\*\*

